

Dyddiad/Date: 12 Mehefin 2020

Annwyl riant/gofalwyr

Diolch am eich cefnogaeth, eich dealltwriaeth a'ch amynedd dros y tri mis diwethaf. Rwy'n ddiolchgar i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i helpu'ch plentyn i ddysgu, ac i helpu'ch ysgol a'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bydd y llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am aildddechrau addysg i bob disgybl yn ein hysgolion, ac am ofal plant brys i blant cymwys ym Mhen-y-bont dros weddill tymor yr haf (tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf).

Dod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg yn ddiweddar am ailagor ysgolion, mae'r awdurdod lleol yn awyddus i weithio gydag ysgolion a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn manteisio ac y cyfle i ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu gyda'u cyfoedion a'u hathrawon, a pharatoi at y flwyddyn ysgol newydd.

O ddydd Llun 29 Mehefin ymlaen, bydd ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn dechrau derbyn eu disgyblion eu hunain ac yn trefnu sesiynau penodol ar eu cyfer yn eu hysgolion eu hunain.

Fodd bynnag, nid fydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd yr un pryd a, phan fyddant yn dychwelyd, gallai'r diwrnod ysgol ddechrau a gorffen ar amseroedd gwahanol i ddysgwyr gwahanol. Gall hyn gynnwys trefniadau gwahanol ar gyfer brodyr a chwiorydd o wahanol oedran sy'n mynd i'r un ysgol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dweud na fydd cyfanswm y disgyblion mewn unrhyw ysgol benodol ar unrhyw adeg benodol yn fwy na thraean o'r holl ddisgyblion a fyddai'n bresennol fel arfer. Er mwyn gwneud hyn, yn ystod y cyfnod rhwng dydd Llun 19 Mehefin a dydd Gwener 24 Gorffennaf, bydd eich plentyn yn cael ei wahodd i'r ysgol dim ond dwywaith (oni bai ei fod yn gymwys i gael gofal plant brys yng nghanolfan gofal plant ei ysgol).

Mae'n bwysig nodi bod rhyddid i rieni a gofalwyr benderfynu a ydynt am anfon eu plant i'r ysgol ai peidio yn ystod y cyfnod hwn. Os byddwch yn penderfynu peidio â'u hanfon dros dymor yr haf, ni chewch eich cosbi a bydd eich plentyn yn parhau i gael yr un cymorth gan yr ysgol ag y mae wedi'i gael hyd yma.

Pan fydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol, bydd y staff yn canolbwyntio ar eu lles ac yn eu hannog i fwynhau addysg yn yr awyr agored, pan fydd hynny'n ymarferol, yn eu hamgylchedd dysgu penodol nhw.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Bydd yr ysgolion uwchradd yn canolbwyntio mwy ar hybu addysg y disgyblion, yn enwedig yn achos rhai grwpiau blwyddyn, i'w paratoi ar gyfer gofynion academiaidd y flwyddyn ysgol sydd i ddod.

I helpu ysgolion unigol gyda'u gwaith cynllunio, byddai'n fuddiol iddynt wybod a yw rhieni a gofalwyr yn bwriadu anfon eu plant i'r ysgol os cânt wahoddiad i wneud hynny.

Gwn y byddai rhai athrawon, arweinwyr a staff cymorth yr ysgolion wrth eu boddau'n gweld y disgyblion.

Er mwyn cael gwybod faint sy'n debygol o fanteisio ar y cyfle i ddychwelyd i'r ysgol, bydd eich ysgol yn cysylltu gyda chi.

Unwaith eto, rwy'n awyddus i wneud popeth posibl i'ch sicrhau chi bod yr awdurdod lleol yn gwneud popeth i hybu lles emosiynol a chorfforol y disgyblion. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion a'u partneriaid i sicrhau bod arweiniad a chymorth ar gael i helpu'ch plentyn i ddychwelyd i'r ysgol.

Gofal plant brys i weithwyr allweddol yn unig

Yn dilyn cyhoeddiadau gweinidogol diweddar, bydd angen i ni newid cryn dipyn ar ein darpariaeth gofal plant brys a hynny fel mater o frys.

Bydd canolfannau gofal plant brys Pen-y-bont ar Ogwr yn cau ddydd Gwener 19 Mehefin.

O ddydd Llun 22 Mehefin (tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf), bydd gofal plant brys ar gael yn ysgol arferol eich plentyn.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond rhwng 8.30am a 4.30pm y bydd gofal plant brys ar gael o ddydd Llun 22 Mehefin ymlaen.

I wneud cais am ofal plant brys, bydd angen i rieni/gofalwyr yn awr wneud cais bob wythnos drwy ddefnyddio system [ar-lein](#) yr awdurdod lleol.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais fydd 12 hanner dydd bob dydd Mercher mewn perthynas â chael gofal plant yr wythnos ddilynol.

Gan y bydd ysgolion unigol yn darparu ar gyfer plant eraill ar y safle (pro rata, yn unol â threfniadau'r ysgol), bydd yn rhaid cyfyngu ar nifer y lleoedd er mwyn cadw ar reolau cadw pellter cymdeithasol.

Os ydych chi eisoes wedi gwneud cais am ddyddiadau o 29 Mehefin ymlaen, rhaid i chi wneud cais arall (y dyddiad cau cyntaf fydd 12 hanner dydd, dydd Mercher 17 Mehefin).

Ni fydd yr awdurdod lleol yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd yn hwyr.

Felly, mae'n bwysig nodi mai'r cyntaf i'r felin fydd hi.

Dylai rhieni/gofalwyr gofio hefyd nad yw'r awdurdod lleol mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau a fydd gofal plant brys ar gael yn ystod gwyliau'r haf (hy rhwng dydd Llun 27 Gorffennaf a dydd Mawrth 1 Medi).

Cewch ragor o wybodaeth cyn bo hir am ofal plant brys yn ystod gwyliau'r haf.

I gloi, hoffwn ddiolch i chi i gyd unwaith eto am eich cymorth parhaus yn ystod cyfnod mor anodd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Iorwerth Harvey'.

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr